
100 CBHC RCAHMW

# Capeli Sir Gaerfyrddin: Amrywiaeth o Gynlluniau

## Carmarthenshire Chapels: Diversity of Design



DI2009_0998 NPRN 6475

Ceir croestoriad da o bensaernïaeth capeli yn Sir Gaerfyrddin. Ceir capeli ac iddynt furiau hir brodorol ym Mhen-rhiw, sydd bellach yn Sain Ffagan, a Gosen, ac yn Heol Awst yng Nghaerfyrddin ceir tu mewn cynnar sydd gyda'r gorau o'r rhai sydd wedi'u diogelu. Yn Llanelli y mae un o'r casgliadau gwychaf o gapeli sydd wedi goroesi yng Nghymru, gan gynnwys Capel Als, capel y cynlluniwyd ei du mewn swmpus gan Owen Morris Roberts. Ceir capeli hefyd mewn ardaloedd gwledig lle'r oedd y cyfuniad o gapel, tŷ capel ac ysgol yn ganolbwynt i'r gymuned.

Carmarthenshire has a good cross-section of chapel architecture. Vernacular long-wall chapels are found at Penrhiw, now at St Fagans, and Gosen, while one of the best preserved early interiors survives at Heol Awst in Carmarthen. Llanelli has one of the finest surviving collections of chapels in Wales, including Capel Als with its sumptuous interior designed by Owen Morris Roberts. Chapels are also found in rural areas, where the complex of chapel, chapel house and school would be the focus of the community.

(Chwith) Gosen, capel a godwyd gan y Methodistiaid Calfinaidd ym 1844. Mae'n enghraifft o'r capel â muriau hir brodorol ac iddo du blaen sy'n un â thu blaen y tŷ capel. Ychwanegiad diweddarach yw'r tŷ capel yn yr achos hwn.

(Left) Gosen Calvinistic Methodist Chapel dating to 1844, an example of the vernacular-style long-wall chapels which form an integrated front with the attached chapel house, which in this case is a later addition.

(Isod) Nenfwd a thu mewn trawiadol Capel Als yn Llanelli. Codwyd y capel ym 1894 a gallai ddal 1150 o bobl ar y tro.

(Below) The impressive ceiling and interior of Capel Als in Llanelli dating from 1894. The building was capable of seating 1150 people at a time.



DS2005_093_007 NPRN 97272

Codwyd Capel y Tabernacl yn Llanfihangel-ar-arth yn y dull Unionsyth ym 1909 gan ddangos nad yn yr ardaloedd trefol yn unig y ceid y cynlluniau diddorol.

Built in 1909, the Perpendicular styling of Capel Tabernacl in Llanfihangel-ar-Arth shows that interesting designs were not confined to urban areas.




DS2005_093_005 NPRN 97272

Maen dyddio Capel Tabernacl, sy'n cofnodi sefydlu'r achos ym 1650 a dyddiad codi'r capel presennol. Mae meini dyddio o'r fath yn nodwedd amlwg ar gapeli Cymru.

A datestone from Capel Tabernacl, recording the establishment of the cause in 1650 and the date the present chapel was built. Such datestones are prominent features of Welsh chapels.



DS2008_186_008 NPRN 6419